Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mehefin 2009 Rhif 391 40c

BUDDUGOLIAETH YNG NGHAERDYDD!

Y Wobr Gyntaf i Gôr Ysgol Penybryn

Gwobrwyo dwy o Ysgol Llanllechid

Llongyfarchiadau calonnog i Buddug Roberts ac Alys Haf ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod. Cafodd Alys yr ail wobr am ysgrifennu ymson a Buddug yr ail wobr am ei

ythnosol yn casglu arian tuag at y

lwb, ac i bawb arall sydd yn ein efnogi. I William Naylor a Llion loss sydd mor barod eu mwynas efo'r tractor bach. e gafodd David Ball, Paul de aart a Tim Williams eu dewis i m Cynghrair Caernarfon a'r ylch, a fydd yn chwarae yn erbyn n o gynrychiolwyr o gynghrair nys Môn.

wriad y Clwb eleni yw ail dechrau tîm pêl-droed plant. Yr dym wedi bod yn llwyddiannus yn ael rheolwyr i dîm o dan 9, a efyd o dan 11. Os oes unrhyw un yda diddordeb yn gofalu am dîm o an 13, cysylltwch â Glyn Morris 1248601657.

riodas Ddiemwnt

ongyfarchiadau i Leslie a Dilys illiams, 7 Tan y Bwlch ar ddathlu mlynedd o fywyd priodasol ar 5 Bachgen bach arall ddaeth i aelwyd Geraint ac Alison, Rhiwlas, ŵyr i Margaret a Desmond Rowlands, 24 Arafon. Mae Jack yn falch iawn o Mason Oliver.

Gwaeledd

Bu Sulwen Jones, 12 Arafon yn yr Ysbyty am gyfnod byr, ac ar hyn o bryd mae James Taylor, 6 Arafon yn Ysbyty Gwynedd. Heb fod yn dda iawn gartref mae Edward Oliver, 5 Arafon. Gobeithio eich bod i gyd yn gwella.

Profedigaeth

Bu farw Roy Parsons, Bryn Eglwys, priod Dawn a thad i Daniel ac Aaron. Roedd yn aelod o dîm achub mynyddoedd Dyffryn Ogwen. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mair Williams, 25 Arafon a Dei Parry, 3 Penrhiw ar golli cyfnither iddynt.

Clwb y Mynydd

Yn y cyfarfod mis Mai cafwyd prynhawn pleserus iawn yn cael arddangos sut i wneud cardiau cyfarchion o bob math gan Theta Owen. Hefyd daeth Chaz Sewell, Tan y Bwlch i esbonio beth oedd yn cael ei wneud yn y Neuadd Goffa. Mae'r Neuadd yn cael ei

brif.

Prosiect Pobol Ifainc Mynydd Llandygai a dyfodol Coedwig Parc y Bwlch

Mae pobol ifainc o Fynydd Llandygai wedi bod yn cynnal ymgynghoriad efo'r gymuned leol ynglŷn â dyfodol coedwig Parc y Bwlch. Gofynnwyd iddyn nhw ymgymryd â'r prosiect gan y grŵp Coetir Mynydd. Nhw hefyd oedd yn gyfrifol am ei noddi gydag arian a ddaeth gan Gomisiwn Russell. Y nod oedd darganfod sut oedd pobol Mynydd yn defnyddio'r goedwigaeth, pa mor aml mae nhw'n mynd yno, sut mae nhw'n teimlo am y goedwigaeth a pha syniadau sydd ganddyn nhw efallai am reolaeth y goedwigaeth yn y dyfodol.

Cafodd y prosiect ei leoli yng nghlwb ieuenctid Mynydd Llandygai lle bu'r bobol ifainc yn gweithio gyda gweithwyr ieuenctid yn datblygu holiadur a gafodd ei ddosbarthu yn y gymuned. Pan ddaeth y canlyniadau yn ôl, y peth cyntaf oedd yn sefyll allan oedd pa mor eang oedd amrediad oedran y bobol oedd wedi ymateb - o 6 mis i 93 blynedd! Dyma un ffactor oedd yn dangos bod y prosiect yn llwyddiant. Ffactor arall oedd y profiadau a gafodd y bobol ifainc eu hunain tra'n ymwneud â materion cynllunio lleol a pholisi mewn cyd-destun oedolion gan roi ffeithiau defnyddiol i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, perchenogion y goedwig. Mewn cyflwyniad o'r adroddiad a wnaed, rhoddodd sawl un o'r bobol ifainc gyflwyniad *power point* i gynulleidfa fawr o drigolion yr ardal a chynrychiolwyr o wahanol adrannau'r Comisiwn Coedwigaeth.

Rhoddodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru glod i'r bobol ifainc am eu gwaith ac mae nhw a Coetir Mynydd wedi dechrau trafod ffyrdd o barhau'r prosiect gydag ymgynghoriadau pellach efo defnyddwyr eraill y goedwig sydd ddim yn byw ym Mynydd.

Hoffai Coetir Mynydd ddiolch i'r bobl ifainc a weithiodd mor dda ar y prosiect a hefyd i Glwb Ieuenctid Mynydd Llandygai am eu cefnogaeth barhaol a werthfawrogir yn fawr.

Martin Daws